# CYNLLUN TREF
# YR WYDDGGRUG

2017 - 2030







# Rhagair

Ers ffurfio'r grŵp llywio gyntaf yn gynnar yn 2015, roedd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn awyddus i gefnogi cynhyrchu Cynllun Tref yr Wyddgrug. Teimlai Cyngor y Dref y byddai'n rhoi cyfle rhagorol i'r gymuned gyfan fynegi ei barn ynghylch sut ddylai'r Wyddgrug ddatblygu yn y dyfodol. Mae Cynllun y Dref o'i orffen yn disgrifio sut fyddai pobl sy'n byw ac yn gweithio yma'n hoffi i'r gymuned ddatblygu, mae'n nodi cyfleusterau a gwasanaethau allweddol ac mae'n cyflwyno'r materion sydd angen sylw os yw'r dref i gael ei gwella i holl drigolion yn ôl y blaenoriaethau sy'n cael eu dewis. Bydd y Cynllun yn offeryn defnyddiol i Gyngor y Dref oherwydd ei fod yn cynrychioli llais cyfunol ein hetholwyr. Bydd y cynllun hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar Gynllun Datblygu Lleol eginol Cyngor Sir y Fflint.

Hoffwn longyfarch y grŵp llywio o aelodau Cyngor y Dref a rhanddeiliaid allweddol yn y Dref ynghyd â phawb a gyfrannodd at y cynllun. Fe wyddem eisoes fod pobl yr Wyddgrug yn gwerthfawrogi ac yn pryderu ynghylch yr amgylchedd; y gymuned; a diwylliant, hanes a dyfodol eu Tref. Gwyddom hefyd y bydd yr Wyddgrug yn gorfod datblygu fel unrhyw gymuned leol fywiog.

Anthony Parry
Maer yr Wyddgrug
Aelod gweithredol o Bartneriaeth Tref yr Wyddgrug

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 0.1 | Cyflwyniad | 4 |
| 0.2 | Proses | 4 |
| 0.3 | Y ddogfen hon | 5 |
| 0.4 | Ymgynghori | 7 |
| 0.5 | Cittaslow Yr Wyddgrug | 8 |
| 0.6 | Y Weledigaeth | 10 |
| 0.7 | Themâu Cynllun y Dref | 12 |

**1 Tref ddeniadol a ffyniannus**

| | | |
|---|---|---|
| 1.1 | Cyflwyniad | 14 |
| 1.2 | Ymgynghori | 15 |
| 1.3 | Egwyddorion | 16 |
| 1.4 | Polisïau | 17 |
| 1.5 | Prosiectau | 17 |

**2 Strategaeth ar gyfer twf tai**

| | | |
|---|---|---|
| 2.1 | Cyflwyniad | 30 |
| 2.2 | Ymgynghori | 31 |
| 2.3 | Egwyddorion | 32 |
| 2.4 | Polisïau | 33 |
| 2.5 | Prosiectau | 33 |

**3 Yr amgylchedd, tir agored a chysylltiadau**

| | | |
|---|---|---|
| 3.1 | Cyflwyniad | 42 |
| 3.2 | Ymgynghori | 43 |
| 3.3 | Egwyddorion | 44 |
| 3.4 | Polisïau | 45 |
| 3.5 | Prosiectau | 45 |

**4 Rhoi grym i gymunedau a gwella gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 4.1 | Cyflwyniad | 54 |
| 4.2 | Ymgynghori | 55 |
| 4.3 | Egwyddorion | 56 |
| 4.4 | Polisïau | 57 |
| 4.5 | Prosiectau | 57 |

**Y camau nesaf** 61

# Cyflwyniad

## 0.1 Cyflwyniad i Gynllun Tref yr Wyddgrug

Drafft Cynllun Tref yr Wyddgrug yw'r ddogfen hon, a gynhyrchwyd gan Gyngor Tref yr Wyddgrug a Phartneriaeth Tref yr Wyddgrug.


Mae'r Cynllun yn cyflwyno'r blaenoriaethau at ddyfodol y dref hyd at 2030. Wedi'i drefnu o gwmpas pedair thema, mae'r Cynllun yn cynnwys amrywiaeth o flaenoriaethau a chamau gweithredu posibl fel canolbwynt i ymdrechion Cyngor y Dref a'i bartneriaid i ddatblygu er budd tref yr Wyddgrug fel tref farchnad Gymreig. Mae'r Cynllun yn adeiladu ar ymgynghoriadau ac astudiaethau blaenorol gan gynnwys egwyddorion allweddol a nodwyd yn Astudiaeth Naws am Le, Cynllun Gweithredu'r Wyddgrug ac amcanion Cittaslow sy'n cynnwys adeiladu ar ddiwylliant ac etifeddiaeth Gymreig bwysig y dref. Rhan bwysig o'r broses yw ymgysylltu parhaol â'r gymuned, fydd yn cynorthwyo ysbrydoli'r cynllun.

Pam fod angen Cynllun Tref yr Wyddgrug?

- Mae'n helpu rhoi fframwaith i benderfyniadau Cyngor y Dref ynghylch dyfodol yr Wyddgrug mewn ymateb i fuddiannau'r gymuned.
- Bydd yn cynorthwyo darparu tystiolaeth a bydd yn cael ei ddefnyddio fel canolbwynt i ddylanwadu ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Sir y Fflint (CSFf), partneriaid eraill a darparwyr gwasanaethau.
- Bydd yn cynorthwyo blaenoriaethu'r camau i'w cymryd gan Gyngor y Dref ar brosiectau penodol yn yr Wyddgrug er lles y Dref gyfan.

## 0.2 Proses

Y canlynol yw'r broses ar gyfer llunio Cynllun Tref yr Wyddgrug:



## 0.3 Y ddogfen hon

Mae Cynllun y Dref yn cyflwyno gweledigaeth o ddyfodol yr Wyddgrug a'i datblygiad.

Fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, mae rhwymedigaeth statudol ar CSFf i nodi safleoedd newydd ar gyfer tai a mathau eraill o ddatblygiad er mwyn diwallu anghenion lleol. Bydd hyn yn golygu nodi tir ar gyfer datblygiad newydd fydd yn dilyn canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint. Bydd y CDLl yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol fel cynllun datblygu statudol y Sir.

Yn ystod cyfnod cynnar paratoi'r CDLl, gwnaeth Cyngor y Dref ymatebion cynnar i amrywiaeth eang o safleoedd datblygu posibl yr ymgynghorodd CSFf arnynt fel rhan o broses 'galw am safleoedd ymgeisiol'. Felly, caiff unrhyw safleoedd datblygu sy'n cael eu nodi yng Nghynllun Tref yr Wyddgrug eu cynnig yn unol ag ymatebion Cyngor y Dref i ymgynghoriad 'galw am safleoedd ymgeisiol' y Cyngor Sir.

Trwy ymgynghori â'r cyhoedd, datblygwyd y themâu canlynol ar gyfer y cynllun:

- Tref ddeniadol a ffyniannus;
- Strategaeth ar gyfer twf tai;
- Yr Amgylchedd, tir agored a chysylltiadau;
- Rhoi grym i gymunedau a gwella gwasanaethau.

Mae Cynllun Tref yr Wyddgrug yn cymryd pob un o'r themâu hyn yn ei thro. Yn gyntaf mae'n dangos cyfres o egwyddorion ar gyfer pob thema ac yn ail mae'n amlinellu strategaeth a chasgliad o brosiectau allweddol y dylid eu cyflawni er mwyn hyrwyddo pob agwedd allweddol ar y Cynllun.



**Golygfa o'r Stryd Fawr yn edrych tua'r de o dŵr Eglwys y Santes Fair**


Community asset transfer
What shoul




yddo asedau cymunedol
hówch eich sylwadau yma

## 0.4 Ymgynghori

Trefnwyd dau achlysur ymgynghori i roi cyfle i bobl leol yr Wyddgrug rannu eu syniadau ynghylch dyfodol y dref. Cynhaliwyd yr achlysuron hyn ar ddydd Sadwrn 7fed Tachwedd 2015 o 11am tan 4pm a dydd Mawrth 17eg Tachwedd 2015 o 4pm tan 8pm. Llwyfannwyd y ddwy arddangosfa yng Nghanolfan Daniel Owen.

Cyflwynodd yr arddangosfeydd brif egwyddorion Cynllun Tref yr Wyddgrug gan roi cyfle i bobl ateb holiaduron yn cwmpasu nifer o themâu perthnasol i ddyfodol yr Wyddgrug. Roedd cyfle hefyd i bobl e-bostio'u syniadau a sylwadau os nad oeddent yn gallu mynychu'r achlysuron. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymateb a gafwyd i'r achlysuron, wedi'u trefnu o gwmpas y pedair thema a gyflwynwyd yn yr arddangosfeydd ac a ffurfiodd strwythur yr holiaduron.

Amlinellodd yr arddangosfa hefyd nifer o safleoedd penodol y byddai modd eu neilltuo i wahanol ddefnyddiau tir, fel tai a thiroedd agored newydd. Cafodd ymgyngoreion eu hannog i ysgrifennu sylwadau ar safleoedd penodol ar lynion a'u gosod ar fap o'r Wyddgrug.

Daeth llawer i'r arddangosfeydd gyda rhyw 300 o bobl yn mynychu'r arddangosfa yn ystod ei dau ddiwrnod.

Ymgynghorwyd yn ffurfiol ar Gynllun Tref yr Wyddgrug am chwe wythnos rhwng 4 Gorffennaf 2016 a 15 Awst 2016. Roedd y ddogfen ar gael ar-lein a chafwyd 236 o ymatebion. Defnyddiwyd y sylwadau hyn i lunio'r fersiwn mabwysiedig hwn o Gynllun Tref yr Wyddgrug.

Dogfen waith yw Cynllun Tref yr Wyddgrug a fydd yn cael ei hadolygu wrth symud ymlaen a bydd ymgynghori arni.

**Gyferbyn: Ymgynghori cynnar ar Gynllun Tref yr Wyddgrug**

# Gweledigaeth a delwedd

## 0.5 Cittaslow yr Wyddgrug

Cittaslow yw mudiad rhyngwladol o drefi gyda llai na 50,000 o drigolion sydd wedi mabwysiadu casgliad cyffredin o egwyddorion ac amcanion gan olygu bod y gymuned leol yn gweithredu i wella amgylchedd, seilwaith, cynhyrchion lleol, croeso ac amlygrwydd y dref. Mae datganiadau canlynol Cittaslow Yr Wyddgrug a Phartneriaeth Tref yr Wyddgrug yn cyflwyno'r uchelgais a delwedd ar gyfer y dref ac, wrth wneud hynny, yn ffurfio sail i'r themâu, egwyddorion a chamau gweithredu a amlinellir yng Nghynllun Tref yr Wyddgrug.

### Tref ddeniadol gyda mannau cyhoeddus a ddyluniwyd yn dda ac ymdeimlad cryf o le

Mae gwir ymdeimlad o le yn yr Wyddgrug. Caiff ei nodweddion treftadaeth ac asedau eraill le amlwg a chaiff cyfanrwydd ei hadeiladau a'i chymeriad eu cynnal. Mae ei mannau cyhoeddus a'i strydoedd yn fannau bywiog, o safon sy'n cael eu mwynhau at amrywiaeth o ddibenion gan y gymuned leol ac ymwelwyr. Mae cysylltiadau da rhwng nodweddion allweddol yr Wyddgrug a'r cylch ac mae'r dref yn cael ei chynnal yn dda.

### Man neilltuol lle mae cysylltiad rhwng pobl leol ac ymwelwyr a hanes, diwylliant a chefn gwlad

Mae'r Wyddgrug yn un o gyrchfannau Cymru sydd wedi hen sefydlu, yn cael ei chydnabod am ei chynnig lleol unigryw a chysylltiadau â'r amgylchedd naturiol o'i chwmpas. Caiff hanes ac amrywiaeth ddiwylliannol yr Wyddgrug eu dathlu yn ei marchnadoedd, bwyd, celfyddyd, theatr a chyfleoedd adloniadol. Mae gormod o ddewis i gymunedau lleol ac ymwelwyr â'r Wyddgrug, o bob oed a thrwy gydol y flwyddyn, gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gael yn ystod y dydd ac ymlaen i'r noswaith.

### Cymuned gynhwysol gydag ymdeimlad cryf o berthyn a chyfranogiad

Mae cymunedau'r Wyddgrug yn teimlo'n gysylltiedig â'i gilydd ac yn elwa ar amrywiaeth o rwydweithiau lleol sy'n rhoi gwybodaeth a chefnogaeth. Bydd pobl o bob oed a gallu'n cyfranogi'n rheolaidd mewn achlysuron cyhoeddus ac yn cefnogi marchnadoedd a chynhyrchwyr lleol. Mae'r mwyafrif llethol o bobl yn gweithio'n lleol, mae incymau wedi cynyddu ac mae teuluoedd yn byw mewn cartrefi o safon. Mae cymunedau'n ymfalchïo'n iach yn eu hamgylchedd lleol ac yn mwynhau defnyddio asedau cymunedol.



## Patrwm o gynaliadwyedd amgylcheddol, yn cwmpasu newid ac arloesedd

Bu ymateb i fater cynaliadwyedd amgylcheddol yn yr Wyddgrug ac mae cymunedau cymdeithasol lleol wedi cwmpasu diwylliant o 'leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu'. Mae cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus yn ddewisiadau go iawn ac mae rhwydweithiau a gwasanaethau o safon yn adlewyrchu hyn. 'Glaswyd' y drefwedd yn sylweddol, mae ansawdd yr awyr yn dda, ac mae swm a sylwedd dŵr yn ystyriaeth o bwys yn holl ddatblygiadau newydd a gwaith cyhoeddus. Gwellwyd ansawdd adeiladu a defnyddio ynni'n effeithlon, yn enwedig mewn tai, ac mae ansawdd bywyd trigolion yn well.

## Amgylchedd masnachol o safon yn cynnal busnesau ffyniannus a gweithlu lleol sy'n cael ei werthfawrogi

Mae cymuned fusnes a gweithlu'r Wyddgrug yn mwynhau amgylcheddau gwaith o safon, gyda rhwydweithiau busnes cadarn a hyder mawr. Mae'r cynnig masnachol yn amrywiol, gyda busnesau presennol a newydd yn gwneud buddsoddiadau gwirioneddol, hirdymor ac yn creu swyddi diogel. Mae tir a ddatblygwyd o'r blaen yn brin yng nghanol y dref a'r cyffiniau wrth i fusnesau chwilio am gyfleoedd adleoli. Caiff datblygwyr eu denu i'r Wyddgrug ac mae safon dylunio a chynaliadwyedd datblygiadau newydd yn uchel.

## Cyfrannwr gweithgar at bartneriaethau lleol gyda rhwydweithiau cyfannol cryf ledled y rhanbarth

Caiff yr Wyddgrug ei rheoli'n dda gyda nodau clir yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyfunol. Mae trafodaeth agored a chyfranogiad gweithgar wedi rhoi grym i gymunedau lleol sydd â budd go iawn yn eu dyfodol. Ymdoddwyd gwerthoedd grwpiau a chysylltiadau lleol fel Cittaslow yn rheolaeth y dref. Mae gan Bartneriaeth y Dref gysylltiadau gwaith cadarnhaol gyda darparwyr gwasanaethau lleol, trefi eraill yn Sir y Fflint a siroedd cyfagos.



## 0.6 Ein gweledigaeth ar gyfer yr Wyddgrug

Yn 2010 paratôdd Cyngor y Dref yr Astudiaeth Naws am Le ar gyfer yr Wyddgrug a gomisiynwyd i helpu'r dref adeiladu ar ei hynodrwydd lleol a gweld sut i ddatblygu'r dref er budd mwyaf y trigolion, busnesau ac ymwelwyr. Cyflwynwyd y weledigaeth ganlynol:

**"Erbyn y flwyddyn 2025, bydd yr Wyddgrug yn sbarduno economi Gogledd-ddwyrain Cymru ac yn gyrchfan sy'n anhepgor i ymwelwyr â'r rhanbarth.**

**Bydd y gymuned leol, eu teuluoedd, cyfeillion ac ymwelwyr yn gallu mwynhau buddiannau treftadaeth y dref a'i hasedau naturiol ac economaidd.**

**Yn cynnal hyn fydd y profiad siopa sy'n cael ei gynnig gan amrywiaeth y busnesau manwerthu, ymwelwyr a phroffesiynol llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar y cwsmer gan greu cyfoeth a chyfleoedd swyddi newydd"**

***Astudiaeth Naws am Le, Yr Wyddgrug, 2010***










LLOYDS BANK

# 0.7 Themâu Cynllun Tref yr Wyddgrug

Mae gan Gynllun Tref yr Wyddgrug bedair thema allweddol, a ddatblygwyd trwy ymgynghori â phobl leol, sy'n cynorthwyo rhoi trefn i'r Cynllun. Dan bob thema mae cyfres o egwyddorion a phrosiectau i wella pob agwedd allweddol ar y Cynllun.

## 1 Tref ddeniadol a ffyniannus







## 2 Strategaeth ar gyfer twf tai







## 3 Yr Amgylchedd, tir agored a chysylltiadau







## 4 Rhoi grym i gymunedau a gwella gwasanaethau







# 1 Tref ddeniadol a ffyniannus

## 1.1 Cyflwyniad

Mewn arolwg diweddar, roedd dros hanner yr atebwyr yn ystyried bod golwg canol y dref yn un o asedau allweddol yr Wyddgrug. Ond ni all yr Wyddgrug orffwys ar ei henw da. Mae manwerthu'n dal i dyfu ar y we ac mae canolfannau Caer a Wrecsam gerllaw, yn ogystal â manwerthu allan o'r canol fel Parc Brychdyn a Cheshire Oaks, wedi neu wrthi'n elwa ar raglenni buddsoddi a gwella sylweddol. Ar waethaf llwyddiant cynllun newydd Sgwâr Daniel Owen, rhaid i ganol tref yr Wyddgrug ddal i fod yn ganolbwynt gwella a buddsoddi parhaol i sicrhau bod ei marchnadoedd hanesyddol yn dal i ffynnu a'i chymysgedd fywiog o fanwerthwyr annibynnol lleol a chenedlaethol yn llewyrchu.

### Ffeithiau canol y dref:

Mae Parc Manwerthu Brychdyn eisoes yn cyfrif am bron ddwbl gwariant manwerthu 'cymharu' yr Wyddgrug (Astudiaeth Cynhwysedd Manwerthu Sir y Fflint, Cyngor Sir y Fflint 2011).

Mae'r Wyddgrug yn un o saith prif ganol trefi sy'n darparu cylchoedd cyflogaeth allweddol Sir y Fflint.

Dangosodd arolwg diweddar fod tua dwy ran o dair o ddefnyddwyr canol y dref yn cadarnhau bod y Farchnad Anifeiliaid yn elfen bwysig wrth ddenu ymwelwyr i'r dref.

(Ffynhonnell: Adroddiad Arolwg y Farchnad Anifeiliaid, Awst 2015).



Marchnad stryd yr Wyddgrug

## 1.2 Beth oedd eich sylwadau ar adeg ymgynghori â'r cyhoedd?

Roedd y rhai a fynychodd yr achlysuron ymgynghori'n cefnogi'r farn y dylai canol tref yr Wyddgrug fod yn fan ffyniannus i fyw a gweithio ynddo. Roeddent yn derbyn bod angen llai o siopau gwag ar y Stryd Fawr a chael siopau annibynnol llai, o safon. Teimlai pobl fod angen mwy o bwyslais ar sut fydd y Cynllun yn cefnogi busnesau annibynnol lleol.

Mae pobl yn gwerthfawrogi naws y dref, ac maent yn awyddus i gadw'i chymeriad fel tref farchnad hanesyddol a'i threftadaeth bob dydd. Mae llawer o asedau hanesyddol a diwylliannol yn yr Wyddgrug, fel Theatr Clwyd a'r marchnadoedd lleol, y mae pobl eisiau gweld eu cynnal a'u gwella. Mae'r Farchnad Anifeiliaid yn cyfrannu'n sylweddol at ddelwedd y dref a'r economi lleol, ac mae pobl yn teimlo y dylid atgyfnerthu hyn.

Cododd pobl nifer o faterion cysylltiedig â'r parth cyhoeddus, gan gynnwys adeiladau yn y dref sydd angen eu hailaddurno, tynnu chwyn, a phalmentydd sydd angen eu hailwynebu neu ledu, gan gynnwys gwella'r palmant ar y Stryd Fawr. Mae llawer o gerbydau'n defnyddio'r Stryd Fawr, ac mae angen cynnal strydoedd canol y dref i well safon.

Mae'r cyhoedd yn awyddus i weld defnyddio mwy ar Sgwâr Daniel Owen; man lle mae modd cynnal gwahanol weithgareddau a digwyddiadau i bobl o bob oed a chefndir. Awgrymodd rhai adleoli cyfleusterau Neuadd y Sir i ganol y dref.

**"Gwella golwg siopau'r dref"**

**"Hysbysebu ein sefyllfa unigryw fel tref farchnad hanesyddol"**

**"Rwy'n meddwl mai dim ond tacluso tipyn ar yr Wyddgrug sydd ei angen"**

# 1.3 Egwyddorion allweddol

Yr egwyddorion canlynol sy'n cyflwyno'r weledigaeth o ddatblygiad a newid ynghanol tref yr Wyddgrug:

## Amgylchedd o safon

Dylid canolbwyntio gwelliannau ar y strydoedd prysuraf a llwybrau allweddol i helpu creu man mwy deniadol i weithio, byw ac ymweld ag ef. Dylai'r Wyddgrug fod yn lle diogel a deniadol i gerddwyr, wrth gydnabod swyddogaeth bwysig parcio cyhoeddus ac ar y stryd wrth gynnal economi'r Wyddgrug. Y Stryd Fawr yw asgwrn cefn canolog y dref a chanolbwynt ardal gadwraeth yr Wyddgrug. Dylai gwella amgylchedd y Stryd Fawr a'i chymeriad hanesyddol cysylltiedig fod yn ganolbwynt unrhyw fuddsoddiad.

## Economi min nos ffyniannus

Cefnogi Theatr Clwyd fel ased gwych i'r dref. Byddai gwesty newydd ynghanol y dref, mannau eraill i aros ac amrywiaeth o atyniadau min nos yn cynorthwyo cynnal economi min nos prysurach.

## Lle gwych i ymweld ag ef

Atgyfnerthu a hysbysebu'r rhesymau dros ymweld â'r Wyddgrug gan gynnwys y cynnig bwyd, cyfeillgarwch y dref, amrywiaeth y gweithgareddau awyr agored, y porth i Fryniau Clwyd, y dreftadaeth adeiledig a'r cymeriad. Dylid defnyddio'r Llyfrgell fel canolbwynt i hysbysu ymwelwyr â'r dref.

Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn ymroddi i gefnogi hyn fel gwasanaeth gwell ynghanol y dref.

## Tref ar gyfer busnesau

Sicrhau bod y dref yn cefnogi busnesau trwy ddarparu amrywiaeth o adeiladau o safon ar gyfer swyddfeydd, diwydiant a busnesau amaethyddol. Ymhlith blaenoriaethau eraill mae gwella cysylltedd rhyngrwyd a darparu lle i fusnesau lleol hysbysebu.  Bydd Cyngor y Dref yn pwyso am ac yn hyrwyddo darparu gwell band eang yn yr Wyddgrug.




Stryd Fawr yr Wyddgrug



Cibo Bistro, Rhodfa Dewi Sant

## 1.4 Polisïau ac astudiaethau perthnasol

Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi mwy o fanylion a gwybodaeth gefndir berthnasol i'r egwyddorion a phrosiectau ar gyfer cyflawni tref ddeniadol a ffyniannus. Mae'r dogfennau'n cynnwys astudiaethau lleol a pholisi sirol:

Adroddiad Arolwg y Farchnad Anifeiliaid (Pobl a Lleoedd, Awst 2015)

Mold En Masse (2010)

Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint: EM1, EM2, EM4, EM7

Cynllun Datblygu Lleol eginol Sir y Fflint

Strategaeth Dwristiaeth Sir y Fflint

Cynllun Gweithredu'r Wyddgrug 2011 - 2025

## 1.5 Prosiectau allweddol

Mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno rhagor o fanylion am y prosiectau allweddol a nodwyd i hwyluso cyflawni tref ddeniadol a ffyniannus:

T1 - Hyrwyddo a rheoli cynnig y farchnad ynghanol y dref

T2 - Gwelliannau blaen siopau ar Stryd Fawr

T3 - Gwella'r parth cyhoeddus ynghanol y dref

T4 - Cefnogi newidiadau ynghanol y dref

T5 - Diogelu'r safleoedd diwydiannol / cyflogaeth gorau

T6 - Ymwneud yn rhagweithiol â'r Farchnad Anifeiliaid




Canolfan Siopa Daniel Owen

# T1 Dal i hyrwyddo a rheoli marchnadoedd ffyniannus canol tref yr Wyddgrug

Mae'r Wyddgrug wedi bod yn dref farchnad ers y canoloesoedd, gyda marchnad stryd yn cael ei chynnal ynei chanol ers 1732. Heddiw, yn yr Wyddgrug mae un o'r marchnadoedd stryd mwyaf yng Ngogledd Cymru, yn cynnig amrywiaeth eang o gynnyrch ac yn creu awyrgylch bywiog ynghanol y dref. Mae'r marchnadoedd presennol sy'n gweithredu ynghanol y dref yn cynnwys:

Y farchnad stryd: Stondinau ar y Stryd Fawr ac yn Sgwâr Daniel Owen a'r Ganolfan Siopa ar ddydd Mercher a dydd Sadwrn rhwng 9am a 3:30pm.

- Marchnadoedd dan do: Amrywiaeth o siopau annibynnol a stondinau ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 9am i 5pm.
- Marchnad y Ffermwyr: Bwyd a diod ffres 20 a mwy o amaethwyr lleol ar agor o 9am i 2pm, bod dydd Sadwrn 1af a 3ydd y mis yn Neuadd Eglwys y Santes Fair.
- Y Farchnad Anifeiliaid: Pob bore Llun a bore Gwener.
- Canolfan Arwerthu: Diwrnodau'r arwerthiant yw dydd Mercher a rhai Sadyrnau yn Victoria Auction Galleries, Stryd Caer.

Er mwyn cefnogi'r Wyddgrug yn rhagweithiol fel tref farchnad bydd Cyngor y Dref yn edrych ar y prosiectau canlynol mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir:

- Gwella ansawdd y parth cyhoeddus ar hyd y Stryd Fawr ar gyfer stondinau'r farchnad stryd (gwelwch T3).
- Cefnogi a hyrwyddo amrywiaeth a nifer stondinau'r farchnad.
- Archwilio posibilrwydd stondinau marchnad mewn mannau newydd fel yn y Farchnad Anifeiliaid (gwelwch T6).
- Annog defnyddio Sgwâr Daniel Owen ar gyfer perfformiadau ac adloniant yn ystod marchnadoedd stryd i wella mwy ar brofiad yr ymwelydd.




**Marchnadoedd yn yr Wyddgrug**

Marchnad Stryd
Y Farchnad Anifeiliaid
Marchnad y Ffermwyr
Marchnad Dan Do
Canolfan Arwerthu



Ffotograffau'n dangos marchnadoedd bywiog a deniadol yr Wyddgrug

## T2 Gwella blaenau siopau ar Stryd Fawr

Mae craidd hanesyddol yr Wyddgrug yn canoli ar y Stryd Fawr ddeniadol ar rediad graddol rhwng Stryd Caer a Bryn y Beili. Y Stryd Fawr hefyd yw echelin ganolog Ardal Gadwraeth yr Wyddgrug.

Mae golwg blaen siopau ac adeiladau hanesyddol o gwmpas yn cael cryn effaith ar y cymeriad ac ymdeimlad o ansawdd ynghanol y dref. Fe all buddsoddi mewn adeiladwaith hanesyddol fod â buddiannau cymdeithasol ac economaidd. Gall buddiannau cymdeithasol gynnwys gwell ymdeimlad o falchder a hunaniaeth. Gall buddiannau economaidd gynnwys cynnydd mewn trosiant i fusnesau, cynnydd yn nifer y cwsmeriaid a bod yn offeryn sy'n gallu hybu rhagor o fuddsoddiad yn y dref.

Mae rhaglen Treftadaeth Treflun Cronfa Dreftadaeth y Loteri'n helpu cymunedau adfywio trefi a dinasoedd ar hyd a lled y DU trwy wella eu hamgylchedd hanesyddol adeiledig. Mae grantiau'n amrywio o £100,000 i £2 filiwn. Ymhlith amcanion allweddol y rhaglen mae:

- Atgyweiriadau i adeiladau hanesyddol;
- Defnyddio adeiladau hanesyddol unwaith eto;
- Gwella mannau agored o fewn Ardaloedd Cadwraeth;
- Cynorthwyo pobl i ddysgu am eu treftadaeth eu hunain a phobl eraill;
- Cynyddu sgiliau treftadaeth trwy gyfleoedd hyfforddi;
- Cynyddu cyfranogiad cymunedol; a
- Gwella agweddau at reoli a chynnal cadwraeth.

Yn ddelfrydol, byddai gweithgareddau sy'n cael eu hyrwyddo drwy raglen Treftadaeth Treflun yn ategu rhaglenni adfywio eraill sy'n gweithredu eisoes neu'n berthnasol i'r Wyddgrug ac ychwanegu at yr arweiniadau eraill hyn trwy weithio gyda'i gilydd i wella a hyrwyddo'r cylch. Dylai gwella arddangosfeydd blaen siopau fod yn flaenoriaeth hefyd. Byddai modd defnyddio unedau gwag i arddangos gwaith celf ysgolion lleol, gwaith artistiaid lleol neu wybodaeth ynghylch achlysuron lleol.

Yn wahanol i drefi eraill Sir y Fflint, er bod yr Wyddgrug wedi cael rhywfaint o fuddsoddiad, ni wnaeth elwa erioed ar raglen Treftadaeth Treflun o'r math hwn. Bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i edrych ar y buddiannau all ddeillio o raglen o'r fath.






**Blaenau siopau yn yr Wyddgrug a gafodd welliannau sy'n cyd-fynd â chymeriad hanesyddol canol y dref**




## Gwella craidd hanesyddol canol y dref

# T3 Gwella'r parth cyhoeddus ynghanol y dref

Y parth cyhoeddus yw'r mannau a lleoedd agored i'r cyhoedd rhwng adeiladau. Ynghanol trefi mae'r parth cyhoeddus yn rhan bwysig o'r amgylchedd hanesyddol ac mae'r patrwm ffyrdd, mannau agored a golygfeydd sy'n cael eu creu gan yr elfennau hyn mor werthfawr ynghanol yr Wyddgrug â llawer o'r adeiladau hanesyddol eu hunain.

Mae gan yr Wyddgrug Stryd Fawr ddeniadol a gwnaed gwelliannau yn y gorffennol i ychwanegu cilfachau parcio ar y stryd a lledu palmentydd. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy o welliannau gan gynnwys cyfundrefn gynnal well. Bydd Cyngor y Dref, mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, yn edrych ar nifer o brosiectau:

- Archwilio sut i atgyfnerthu cymeriad hanesyddol ardal gadwraeth yr Wyddgrug trwy fuddsoddi yn y parth cyhoeddus ar hyd y Stryd Fawr. Bydd yn bwysig lleihau'r tarmac, defnyddio deunyddiau naturiol a phriodol o safon mewn lleoliadau treftadaeth a chreu gwell amgylchedd i'r farchnad stryd er mwyn cynorthwyo cadarnhau treftadaeth yr Wyddgrug fel tref farchnad.
- Comisiynu peirianwyr a dylunwyr i edrych ar ddewisiadau gwella cyffordd y 'Groes' – gyda nod o gael gwell cyffordd sy'n rhoi mwy o flaenoriaeth i gerddwyr.
- Nodi cyffyrdd allweddol eraill ynghanol y dref fel blaenoriaethau buddsoddi at wella symudiad cerddwyr a beicwyr ynghanol y dref.



Brunswick Square a'r stryd fawr ym Mwcle y mae modd eu defnyddio'n fwy effeithiol erbyn hyn ar gyfer achlysuron ac sy'n adlewyrchu gorffennol diwydiannol canol y dref (delwedd: Harrison Design and Development)



Caiff Sgwâr Daniel Owen ei ddefnyddio ar gyfer achlysuron a pherfformiadau




Y llwyfan newydd a'r parth cyhoeddus o gwmpas cerflun Daniel Owen





Ardal allweddol o welliannau cyhoeddus

Gwelliannau i gyffyrdd pwysig




Y Groes: gosodiad gyffordd bresennol





Y Groes: cynllun arwyddol ar gyfer y gyffordd gydag ardal eang sy'n caniatáu i gerddwyr groesi ar letraws, gan atal traffig i bob cyfeiriad. Byddai modd trin Cyffordd Ffordd yr Iarll, Heol y Brenin a'r Stryd Fawr fel hyn hefyd. Ar yr adeg hon, nid yw'r rhain yn gynigion ffurfiol ond yn syniadau arwyddol.

# T4 Cefnogi newidiadau ynghanol y dref

Mae gan ganol y dref gyfres o safleoedd cyfle allweddol a allai, o'u datblygu'n llwyddiannus, gynorthwyo dod â defnyddiau a gweithgareddau newydd i'r dref. Byddai Cyngor y Dref yn cefnogi ailddatblygu'r safleoedd canlynol ynghanol y dref yn briodol:

| Safle | Adeiladau / defnyddiau presennol | Defnyddiau arfaethedig |
|---|---|---|
| 1 | Gorsaf yr Heddlu, Heol y Brenin a Th Terrig / Llys, Stryd Caer | Mae'r safle hwn yn gyfle datblygiad defnydd cymysg sylweddol a chaiff ei ystyried yn arbennig addas i ymgorffori rhai o wasanaethau'r Cyngor Sir pe bai cyfleusterau presennol yn cael eu hadleoli. Byddai unrhyw ddatblygiad yn gorfod ymgorffori a bod yn ystyriol o D Terrig a'r Hen Lys hanesyddol. Byddai Cyngor y Dref hefyd yn cefnogi datblygiad gwesty a rhywfaint o ddefnydd preswyl fel rhan o'r gymysgedd ar y safle hwn. |
| 2 | Swyddfa'r post a'r swyddfa ddidoli, Ffordd yr Iarll | Mae swyddfa'r post yn gyfleuster hanfodol ynghanol y dref gan wasanaethu dalgylch eang o drigolion a busnesau lleol. Yn amodol ar gael hyd i gyfleuster swyddfa bost priodol ynghanol y dref yn ei le, byddai'r safle hwn yn briodol ar gyfer datblygiad defnydd cymysg gyda Chyngor y Dref yn cefnogi datblygu siopau ar y llawr isaf, gyda phreswyl uwch ben. |
| 3 | Marchnad Dan Do, Canolfan Siopa Daniel Owen | Dylid ailwampio neu ailddarparu'r farchnad dan do i'w gwneud yn atyniad allweddol ynghanol y dref. |
| 4 | Cyfnewidfa Ffôn, Stryd Caer | Y byddai'r safle hwn yn briodol ar gyfer siopau gyda defnyddiau preswyl uwch ben. Byddai'r safle hefyd yn lleoliad da ar gyfer datblygiad gwesty newydd ynghanol y dref. |
| 5 | Safle Travis Perkins wrth ymyl Maes Parcio Stryd Newydd | Yn amodol ar adleoli'r defnydd presennol yn briodol, byddai safle Travis Perkins wrth ymyl maes parcio Stryd Newydd yn briodol ar gyfer cartrefi newydd. |
| 6 | Harleys Garage a safleoedd cyfagos, Stryd Caer | Mae hwn yn safle amlwg ar Stryd Caer sy'n fynedfa bwysig at ganol y dref. Mae gan y safle, sydd nesaf at hafn yr hen reilffordd, ddau wyneb - yr un uchaf at Stryd Caer a'r un isaf at y ffordd i Tesco. Gallai fod yn ailddatblygiad defnydd cymysg gyda siopau ar Stryd Caer a defnyddiau preswyl uwch ben a defnyddiau masnachol islaw ar ffordd Tesco. |
| 7 | Safle Sainsbury's, Ffordd Caer | Mae hwn yn safle ar gyrion y canol ond o fewn tafliad carreg i ganol y dref. Cynigiwyd siop fwyd newydd yn ddiweddar a byddai Cyngor y Dref yn croesawu gweld defnydd masnachol o'r safle unwaith eto ar gyfer bwyd neu ddefnyddiau manwerthu neu fusnes addas arall. Byddai angen gwella cysylltiadau â chanol y dref. Byddai cyfle hefyd i wella'r cyfleusterau chwaraeon cymunedol yn y cylch a gwella ansawdd a mynediad at lan yr afon tua'r gogledd fel rhan o gynllun Cylch Glas yr Wyddgrug (gwelwch S2). |
| 8 | Stryd Newydd, i'r dwyrain o Kendrick's Fields | Safle o fewn tafliad carreg i ganol y dref ac ar bwys man agored cyhoeddus o ansawdd da, rhan ohono'n destun buddsoddiad diweddar. Mae'r safle bob ochr i ymyl gorllewinol terfyn canol y dref ac mae'n ddatblygiad cyfle gyda chyfle i gael defnyddiau manwerthu neu fasnachol. Bydd y berthynas â Kendrick's Fields a'u rhaglen gweithgareddau amrywiol yn ystyriaeth bwysig. |




## Cefnogi newidiadau ynghanol y dref

safleoedd allweddol canol y dref

terfyn canol y dref

# T5 Gwarchod y safleoedd cyflogaeth/diwydiannol gorau

Mae tir cyflogaeth yn chwarae rhan allweddol yn iechyd a chynaliadwyedd economi'r Wyddgrug,  gan greu cyfleoedd gwaith lleol ac ehangu ac arallgyfeirio gallu economaidd yr ardal. Mae gan yr Wyddgrug nifer o barciau busnes a diwydiannol o safon sy'n chwarae rhan bwysig ochr yn ochr â manwerthu a defnyddiau cyflogaeth eraill yn y dref wrth greu economi lleol cytbwys a chydnerth. Fodd bynnag, rhaid cydnabod fod rhai safleoedd cyflogaeth a warchodwyd naill ai heb ddigon o ddefnydd arnynt neu heb eu datblygu'n ddigonol. Dylid cydbwyso rhwng y dymuniad i warchod tir cyflogaeth a'r angen i warchod yr amgylchedd a'r dirwedd a darparu safleoedd tai addas yn yr Wyddgrug.

Y Cyngor Sir sy'n penderfynu faint o dir cyflogaeth sy'n cael ei ddynodi ac mae'n cael ei seilio ar fanteisio presennol a galw disgwyliedig y dyfodol. Dynododd y Cynllun Datblygu Unedol y safleoedd canlynol yn yr Wyddgrug i'w gwarchod fel tir cyflogaeth:

| | Safle | Arwynebedd (ha) | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **1** | Stad Diwydiannol Broncoed | 1.1 | |
| **2** | Parc Busness yr Wyddgrug | 5.3 | Cadw'r neilltuad |
| **3** | Estyniad Parc Busnes yr Wyddgrug | 5 | Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cefnogi defnyddio'r tir hwn ar gyfer tai |


Bydd safleoedd yn dal i gael eu gwarchod gan Gynllun Datblygu Lleol eginol Sir y Fflint ac mae'r 'Papur Pwnc Cynllun Lleol ar yr Economi a Chyflogaeth' (2015) yn datgan y canlynol:

*'Mewn cynlluniau datblygu blaenorol daeth yn arfer neilltuo gormod o dir cyflogaeth er mwyn darparu ar gyfer amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth yn ôl lleoliad, maint a math er mwyn creu rhywfaint o hyblygrwydd. Mae angen adolygiad cadarn o safleoedd presennol ochr yn ochr ag asesiad o fath a maint y safleoedd sy'n debygol o fod eu hangen yn ystod cyfnod y cynllun, er mwyn gweld a yw safleoedd presennol yn dal i allu diwallu anghenion cyflogwyr heddiw.'*

Byddai Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cefnogi egwyddor adolygu'r dynodiadau cyflogaeth presennol yn yr Wyddgrug gan y Cyngor Sir i weld a yw unrhyw safleoedd yn ddiangen bellach. Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cefnogi defnyddio safleoedd tir llwyd ar gyfer datblygu tai.



**Pencadlys ENGIE, Yr Wyddgrug**




## Gwarchod safleoedd cyflogaeth pwysig

- Safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd
- Safle cyflogaeth a neilltuwyd ond heb ei weithredu y mae'n well ei ddefnyddio ar gyfer cartrefi newydd (gwelwch H1 a H4)
- Ardaloedd cyflogaeth eraill

## T6 Ymwneud yn rhagweithiol â'r farchnad anifeiliaid

Mae'r Farchnad Anifeiliaid yn rhan arwyddocaol o hanes y dref, wedi bod yn gweithredu ar y safle yn yr Wyddgrug ers 1879, a hefyd yn creu cyswllt gyda chefn gwlad a diwydiannau amaethyddol y dref. Mae'r Farchnad Anifeiliaid mewn lleoliad canolog yn yr Wyddgrug ac mae modd ei chyrraedd yn uniongyrchol o'r Stryd Fawr ar hyd nifer o lonydd.

Gwnaed arolwg yn 2015 i asesu cyfraniad y Farchnad Anifeiliaid i economi'r dref. Yng ngoleuni arolygon busnes ac ymwelwyr, wyneb yn wyneb ac ar-lein, daeth yr astudiaeth hon i gasgliad bod gan y Farchnad Anifeiliaid ran allweddol yn economi canol y dref a'i bod yn arbennig o bwysig wrth ddenu pobl i'r canol a chynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant mewn busnesau lleol.

I'r dyfodol dylid cefnogi'r Farchnad Anifeiliaid yn ei lleoliad presennol ynghanol y dref. Dengys canlyniadau'r arolwg y gallai fod buddiannau i'r dref pe bai'r Farchnad yn gallu arallgyfeirio. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd y Farchnad Anifeiliaid i gymeriad ac economi'r Wyddgrug, mae Cyngor y Dref yn awyddus i feithrin perthynas waith agos gyda pherchenogion y farchnad i edrych ar gyfleoedd masnachol, cysylltiedig ag ymwelwyr, addysgol ac eraill a allai atgyfnerthu a gwella mwy ar ei swyddogaeth a'i sefyllfa yn y dref. Gallai prosiectau a gwelliannau gynnwys:

- Byddai gwelliannau i gyrion y Farchnad Anifeiliaid a'r llwybrau iddi'n ei chysylltu'n well â'r Stryd Fawr ac yn gwella golwg y farchnad i ddefnyddwyr eraill y dref.
- Archwilio posibiliadau agor y farchnad fel nodwedd o economi ymwelwyr yr Wyddgrug. Gallai llwyfan wylio, hysbysfyrddau a chaffi neu siop ddenu pobl leol ac ymwelwyr.
- Byddai arallgyfeirio defnyddiau ar y safle i gynnwys cynnyrch amaethyddol arall, ar agor i'r cyhoedd, yn denu poblogaeth ehangach i ardal y Farchnad Anifeiliaid.
- Archwilio posibiliadau 'canolfan wasanaethau' ar gyfer amaethwyr a busnesau amaeth eraill yng nghyffiniau'r farchnad. Gallai hyn gynnwys gwasanaethau ategol fel milfeddygol, gofal iechyd, iechyd a diogelwch a chyngor amaethyddol arall



Lluniau'n dangos Marchnad Anifeiliaid yr Wyddgrug

# 2 strategaeth ar gyfer twf tai

## 2.1 Cyflwyniad

Trwy broses y cynllun datblygu statudol, mae'n orfodol ar y Cyngor Sir i sicrhau diwallu anghenion tai lleol mewn ffordd briodol a chynaliadwy. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy baratoi Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir y Fflint (CDLl).

Er mwyn dangos bod cyflenwad priodol o dir ar gyfer tai ar gael i ddiwallu anghenion tai lleol, mae'r Cyngor Sir wedi gwneud Galwad am Safleoedd Ymgeisiol ac mae'r safleoedd hyn yn cael eu hasesu ac mae ymgynghori arnynt. Mae Cyngor y Dref yn ymgynghorai gweithredol ym mhroses y CDLl ac mae wedi gwneud sylwadau ar amrywiaeth o safleoedd datblygu posibl.

Tra bo Cyngor y Dref yn cydnabod pwysigrwydd diwallu anghenion tai lleol, mae'n bwysig nad yw hyn yn cael ei wneud ar draul hunaniaeth yr Wyddgrug neu anheddau cyfagos eraill llai.



Edrych tua'r de o Clayton Road

### Ffeithiau Tai

Mae disgwyl i nifer yr aelwydydd yn Sir y Fflint dyfu 4.4% erbyn 2016, gydag aelwydydd un preswylydd yn tyfu fwyaf, sef 34.4%. Mae disgwyl y cynnydd uchaf ond un mewn aelwydydd un oedolyn ac un plentyn ac un oedolyn a dau o blant, sef 29%.

Yn 2011, roedd 63,781 eiddo yn Sir y Fflint, 37.6% ohonynt yn dai ar wahân, 41.4% ar led-wahân ac 13.9% mewn rhesi. Mewn cymhariaeth â gweddill Cymru, mae canran uwch o dai ar wahân ac ar led-wahân yn Sir y Fflint.

(Ffynhonnell: Adroddiad cwmpasu SA ac EA CDLl Sir y Fflint, 2015)

## 2.2 Beth oedd eich sylwadau yn ystod ymgynghori â'r cyhoedd?

Yn gyffredinol mae pobl yn cefnogi'r strategaeth ar dwf tai cynaliadwy yn yr Wyddgrug. Yn arbennig, mae llawer yn edrych ymlaen at weld troi eiddo gwag ynghanol y dref uwchben siopau'n fflatiau a allai gynorthwyo cynnal canol tref fwy ffyniannus.

Mae pobl yn awyddus i weld mwy o dai cymdeithasol a fforddiadwy'n rhoi sylw i anghenion lleol grwpiau amrywiol, gan gynnwys pobl oedrannus a phobl ifanc.

Er bod llawer yn derbyn yr angen am dai newydd o gwmpas y dref, mynegwyd rhai pryderon yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys effaith tai newydd ar isadeiledd presennol a'r amgylchedd. Mae pobl yn awyddus i weld gwell cynnal ar ffyrdd a chludiant cyhoeddus, cyfundrefnau dŵr a draenio, a seilwaith cymdeithasol i gynnal tai newydd.

Ymhlith materion ynghylch effaith tai newydd ar yr amgylchedd mae bioamrywiaeth, diogelu tir agored a llifogydd.

Mae dymuniad i ardaloedd tai newydd fod o ddefnydd cymysg, sy'n cyfrannu at natur gadarnhaol y dref. Mae pobl yn teimlo bod angen mwy o wybodaeth ynghylch effaith tai newydd ar gymeriad, cynllun a gosodiad y dref.

**"Dylai fod ar sail angen leol heb fynd i dir ar y cyrion"**

**"Syniad gwych i hybu cartrefi ynghanol tref, i greu awyrgylch mwy bywiog a mwy o bobl yn cerdded."**

**"Mae gan yr Wyddgrug ganol a chyfleusterau gwych ac mae'n lle da i ehangu tai"**

Mae modd gweld cyrion y dref o ben Bryn y Beili

## 2.3 Egwyddorion allweddol

Yr egwyddorion canlynol sy'n pennu'r weledigaeth o sut ddylai cartrefi newydd ddod i'r Wyddgrug:

### Tir llwyd yn gyntaf

Mae Cyngor y Dref yn cefnogi egwyddor gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen wrth ddiwallu anghenion tai. Dylai tir heb ei ddatblygu y tu hwnt i ardal adeiledig yr Wyddgrug gael ei ddefnyddio'n unig os aiff hi i'r pen a dim ond ar ôl gwneud asesiad gofalus a thrwyadl o'i addasrwydd.

### Tref ymledol mewn tirwedd warchodedig

Mae angen i'r Wyddgrug sicrhau fod yno gyflenwad cynaliadwy o gartrefi newydd o safon. Fodd bynnag, ni ddylid tanseilio hunaniaeth y dref. Mae tirwedd yr Wyddgrug yn ystyriaeth bwysig yn hyn o beth, a bydd angen gofal i sicrhau cadw tir glas heb ei ddatblygu rhwng yr Wyddgrug a'i hanheddau cyfagos.

### Cymdogaethau newydd o safon

Wrth adeiladu cartrefi newydd yn yr Wyddgrug dylid cynnwys cartrefi henoed, cartrefi fforddiadwy a thai teuluoedd i safonau Cartrefi Gydol Oes. Dylai cartrefi newydd gael eu dylunio i'r safon uchaf, fod yn ecogyfeillgar, greu llecynnau glas newydd, fod yn hygyrch ac ystyried cymeriad cyffredin yr Wyddgrug.



## 2.4 Polisïau ac astudiaethau perthnasol

Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi mwy o fanylion a gwybodaeth gefndir berthnasol i'r egwyddorion a phrosiectau ar gyfer cyflawni strategaeth ar dwf tai. Mae'r dogfennau'n cynnwys astudiaethau lleol, a pholisi ar gyfer y dosbarth cyfan:

Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint: GEN4 a phapur cefndirol ar wahân

Cynllun Datblygu Lleol eginol Sir y Fflint

Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Sir y Fflint 2014



Gorsaf Heddlu'r Wyddgrug

## 2.5 Prosiectau allweddol

Mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno rhagor o fanylion am y pum prosiect allweddol a nodwyd i gynorthwyo cyflawni strategaeth ar dwf tai:

H1 - Strategaeth ar dwf tai

H2 - Atal ymdoddi – safleoedd i'w gwarchod

H3 - Egwyddorion allweddol ar gyfer datblygiadau tai newydd

H4 - Cyflawni safleoedd mawr gyda thir glas a llwybrau

H5 - Mathau a daliadaethau amrywiol

# H1 Strategaeth ar dwf tai

Bydd Cyngor y Dref yn cefnogi datblygu safleoedd ar gyfer tai yn yr Wyddgrug yn y drefn ganlynol:

### A - Datblygu tir llwyd yn gyntaf

Dylid hyrwyddo safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen neu sydd eisoes â chaniatâd i'w datblygu o fewn yr ardal drefol ar gyfer datblygu tai. Hefyd dylid hyrwyddo safleoedd llai ynghanol y dref sydd ar hyn o bryd yn wag neu heb ddigon o ddefnyddio arnynt.


### B - Cartrefi ynghanol y dref: uwchben siopau ac ar safleoedd a neilltuwyd

Byddai cynyddu faint o bobl sy'n byw ynghanol y dref yn gwella bywiogrwydd yr Wyddgrug drwy gydol y dydd ac ar fin nos a chynorthwyo gwneud canol y dref yn lle mwy diogel. I gynyddu nifer yr anheddau ynghanol yr Wyddgrug, dylid datblygu cartrefi newydd uwchben siopau yn y dref. Dylai safleoedd a hyrwyddwyd ar gyfer defnydd cymysg ynghanol y dref gynnwys cartrefi newydd (gwelwch T4). Dylai ailddechrau defnyddio eiddo gwag fod yn flaenoriaeth allweddol.

### C - Safleoedd tir glas os aiff hi i'r pen

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhagweld y bydd safleoedd tir glas yn chwarae rhan bwysig wrth ddiwallu anghenion tai lleol (Ffynhonnell: Papur Pwnc Poblogaeth, Twf Aelwydydd a Thai Rhif 10, Cyngor Sir y Fflint, Mehefin 2015). Fodd bynnag, dim ond os aiff hi i'r pen fyddai Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cefnogi neilltuo safleoedd tir glas ar gyfer datblygu tai a dim ond pan fo modd dangos nad yw safleoedd yn yr ardal drefol bresennol yn gallu ateb y galw. Felly, os yw'n dod yn amlwg bod angen tir i ddiwallu anghenion tai y tu hwnt i'r ardal drefol, dylid bod ag agwedd gyfyngol ac ystyriol nad yw'n tanseilio hunaniaeth yr Wyddgrug na'i anheddau cyfagos ac sy'n ymateb yn gadarnhaol i nodweddion y dirwedd leol.

Dylid asesu gwerth y safleoedd tir glas hyn i'r gymuned a bywyd gwyllt, er mwyn sicrhau bod y dref yn cynnal ardaloedd o lonyddwch a lle i ymarfer, gyda llochesau i fywyd gwyllt. Os caiff cartrefi eu hadeiladu ar y safleoedd tir glas i'r gorllewin o'r dref yna dylid rhoi blaenoriaeth i ymdrechion i roi sylw i sgôr amgylchedd adeileddol gwael Mynegrifau Amlamddifadedd Cymru. Byddai angen ystyried a lliniaru effaith traffig datblygiad newydd wrth i gynlluniau gael eu cynnig a'u hasesu'n strategol gan Gyngor Sir y Fflint.




## Strategaeth ar dwf tai

- Dwysáu canol y dref
- Safleoedd ar gyfer cartrefi newydd
- Atal ymdoddi - gwarchod y tir hwn a pheidio ag adeiladu arno

## H2 Atal ymdoddi - safleoedd i'w gwarchod

Mae polisi GEN4 y Cynllun Datblygu Unedol yn gwarchod rhannau o gefn gwlad o gwmpas yr Wyddgrug. Dynodwyd yr ardaloedd canlynol yn rhwystrau glas:

- Yr Wyddgrug - Gwernymynydd; ac
- Yr Wyddgrug - Mynydd Isa / Sychdyn / New Brighton.

Bwriad y rhwystrau glas hyn yw:

- gwarchod y wlad oddi amgylch rhag gorgyffwrdd ychwanegol;
- atal trefi neu bentrefi cyfagos rhag cyd-doddi i'w gilydd;
- cadw cymeriad arbennig trefi hanesyddol;
- cynorthwyo adfywio trefol; a
- gwarchod prif gyffyrdd rhag datblygiad a fyddai'n oramlwg a pheryglu golwg cyffordd o fewn ei lleoliad gwledig.

Bydd datblygu o fewn rhwystrau glas yn cael ei ganiatáu yn unig pan fo'n cynnwys y canlynol:

- datblygu haeddiannol ar y cyd ag amaethyddiaeth neu goedwigaeth;
- cyfleusterau hanfodol ar gyfer chwaraeon awyr agored ac adloniant, neu fynwentydd;
- ymestyn, addasu neu ailadeiladu anheddau presennol yn gyfyngedig;
- datblygiad tai mewnlenwi cyfyngedig i ddiwallu angen tai lleol profedig neu gynlluniau eithriadau tai fforddiadwy;
- arallgyfeirio ffermydd ar raddfa fach;
- ailddefnyddio adeiladau presennol; a
- defnyddiau gwledig priodol eraill / datblygu sy'n hanfodol iddo fod yng nghefn gwlad ond na fyddai:
  - yn cyfrannu at ymdoddi anheddau; ac
  - yn peri niwed annerbyniol i gymeriad a golwg agored y rhwystr glas.

Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr Wyddgrug o dderbyn yr anheddiad hanesyddol yn swatio o fewn cefn gwlad lethrog, gyda golygfeydd i'r dref ac allan ohoni. Mae'r rhwystrau glas hyn hefyd yn gwarchod y dref rhag ymdoddi i anheddau cyfagos Bwcle, New Brighton, Mynydd Isa, Sychdyn a Gwernymynydd. Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn gwrthwynebu datblygu safleoedd gwledig a fyddai'n peri ymdoddi anheddau cyfagos.

## H3 Egwyddorion allweddol ar gyfer datblygiadau tai newydd

Mae Sir y Fflint yn sir ar gynnydd a bydd angen i'r Wyddgrug roi lle i gartrefi newydd i ddiwallu anghenion tai cynyddol. Wrth i ddatblygiadau mawr gael eu cynnig i ddiwallu'r anghenion hyn, dylai cynigion ymateb i gymeriad ac arbenigrwydd lleol yn eu dyluniad.

Mae Cyngor y Dref yn ystyried y bydd yr egwyddorion allweddol canlynol yn bwysig wrth lywio datblygiadau mawr newydd. Caiff y farn hon ei dal er mwyn cynorthwyo creu mannau llwyddiannus sy'n ymdoddi'n dda i, ac yn ystyriol o, gymeriad yr amgylcheddau presennol lle maent:

- Rhwydwaith cydgysylltiedig o strydoedd yn hytrach ffyrdd pengoll ar wahân.
- Patrwm strydoedd sy'n caniatáu ar gyfer cysylltiadau gyda datblygiad y dyfodol.
- Strydoedd digon llydan sy'n caniatáu ar gyfer parcio ar y stryd i ddiwallu anghenion parcio lleol.
- Adeiladau sy'n wynebu eu stryd gyda drysau blaen a ffenestri'n creu gweithgaredd ac yn tremio drwy gydol y dydd a'r nos.

Ymhlith egwyddorion allweddol eraill fydd yn cael eu cefnogi yn unrhyw ddatblygiad newydd mae:

- Bydd cartrefi newydd sy'n defnyddio ynni fwyaf effeithlon, sy'n defnyddio ffynonellau pŵer adnewyddadwy ac sydd â pheirianwaith arbed dŵr yn cael eu cefnogi.
- Dylai'r parth cyhoeddus a thramwyfeydd gael eu cynllunio i fod yn hydraidd i leihau dŵr ffo ac ymgorffori arferion gorau draenio trefol cynaliadwy.
- Pan fo datblygiad newydd yn ffurfio ymyl yr ardal drefol dylai wynebu'r dirwedd, gan gynorthwyo gwella golygfeydd y wlad oddi amgylch o'r dref a golwg y dref o gefn gwlad. Byddai effaith datblygiad newydd ar y drefwedd yn cael ei ystyried yn ofalus trwy Asesu'r Effaith Amgylcheddol fel rhan o'r broses gynllunio.
- Dylai datblygiad newydd fod â lonydd beicio, llwybrau troed, perllannau a choedlannau, ardaloedd tyfu a mannau chwarae. ac agwedd deimladol at ecoleg a bioamrywiaeth gan gynnwys cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.
- Dylai datblygiadau newydd fod ag enwau strydoedd Cymraeg i gynnal y diwylliant a naws am le.

Yn unol ag ymatebion Cyngor y Dref i Alw am Safleoedd y Cyngor Sir, mae'r cynlluniau fframwaith canlynol yn egluro sut ddylai'r safleoedd tir glas mwy ar gyrion canol y dref ddod ymlaen, pe byddai eu hangen i gynorthwyo ateb gofynion tai.

## Maes Gwern


- Llwybrau cerddwyr i a thrwy'r safle o Barc Broncoed a Bryn Coch Uchaf
- Dylai mynedfa gerbydau fod o Faes Gwern
- Dylai datblygiad barchu'r rhes bresennol o goed i'r gogledd o'r safle
- Perllan gymunedol ar hyd ymyl gogledd-orllewinol y safle
- Dylid cadw tir glas yn y gornel orllewinol i greu toriad rhwng ardaloedd o dai newydd
- Tir agored newydd ychwanegol o safon i'w ddarparu o fewn safle'r datblygiad

## Tir ar ymyl gorllewinol yr Wyddgrug, i'r de o Ffordd y Waun

- Llai na hanner y safle i'w ddatblygu gyda chartrefi ar hanner dwyreiniol y safle
- Dylid plannu rhes newydd o goed i gynnwys yr ardal ddatblygu hon
- Dylai mynedfa gerbydau fod o Ffordd y Waun a Hawthorn Avenue
- Tir agored newydd ychwanegol o safon i'w ddarparu o fewn safle'r datblygiad




Maes Gwern




Tir ar ymyl gorllewinol yr Wyddgrug, i'r de o Ffordd y Waun

## Tir rhwng Factory Pool Lane a Ffordd y Waun

- Dim ond ymyl de-ddwyreiniol y safle a ddylid ei ddatblygu
- Dylid cadw tir agored ar yr ymyl gorllewinol, gan gynnal y golygfeydd ar draws y cae a choed aeddfed
- Byddai mynediad cerbydau o Ffordd y Waun ac Alwyn Close
- Dylai cartrefi newydd gwblhau llinell cartrefi presennol ar hyd Alwyn Close
- Tir agored newydd ychwanegol o safon i'w ddarparu o fewn safle'r datblygiad

## Cae Pêl-droed yr Wyddgrug, Ffordd Dinbych

- Dylid cadw llecynnau glas i'r de ac i'r dwyrain o'r safle yn ogystal â chreu ymyl glas ar hyd y rheilffordd segur i gyfeiriad Afon Alun
- Dylai cynllun y safle hyrwyddo mynediad at y rheilffordd segur
- Bydd mynediad holl gerbydau o Hafod Alun / Tai Maes
- Tir agored newydd ychwanegol o safon i'w ddarparu o fewn safle'r datblygiad
- Safle newydd gwahanol i'w ddatblygu fel Cae Pêl-droed yr Wyddgrug




Tir rhwng Factory Pool Lane a Ffordd y Waun




Cae Pêl-droed yr Wyddgrug, Ffordd Dinbych

## H4 Cyflawni safleoedd mawr gyda llecynnau glas a llwybrau

Lle neilltuwyd safleoedd tir glas ar gyfer cartrefi newydd, bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn gwrthwynebu unrhyw ddatblygiad sy'n adeiladu ar arwynebedd cyfan y safle. Rhaid i gartrefi newydd adlewyrchu'r dirwedd o'u cwmpas a chyfoethogi bioamrywiaeth yr ardal. Bydd angen i ddatblygwyr gynnwys llecynnau agored sy'n ystyriol o fywyd gwyllt a hygyrch i'r gymuned leol.

Bydd cefnogaeth i arweiniadau fel cadw gwrychoedd a choed; creu llwybrau a thramwyfeydd glas newydd a llecynnau agored i bobl a bywyd gwyllt; plannu coed cynhyrchiol newydd a bod ag ardaloedd tyfu cymunedol.

Gan gyfeirio at safleoedd a nodwyd yn H3, mae Cyngor y Dref yn cefnogi darparu llecynnau glas fel rhan o'u hailddatblygu:

Maes Gwern – perllan ar hyd ymyl gogleddol y safle a thir glas yn y gornel orllewinol.

Tir ar ymyl gorllewinol yr Wyddgrug, i'r de o Ffordd y Waun - dylid darparu mannau agored cyhoeddus ac ardaloedd bywyd gwyllt o fewn yr ardal ddatblygedig.

Tir rhwng Factory Pool Lane a Ffordd y Waun - dylid darparu mannau agored cyhoeddus ac ardaloedd bywyd gwyllt o fewn yr ardal ddatblygedig.

Cae Pêl-droed yr Wyddgrug, Ffordd Dinbych – ymyl glas ar hyd y rheilffordd segur i gyfeiriad Afon Alun.

## H5 Amrywiaeth o fathau a daliadaethau

Bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cefnogi datblygiad sy'n hyrwyddo neu'n cynnwys y canlynol:

- Tai ar gyfer pobl wedi ymddeol ac mewn oed. Yn ddelfrydol dylai hyn fod yn agos at siopau a gwasanaethau.
- Dylai datblygiad newydd ddangos bod y cartrefi diwallu anghenion trigolion yn briodol gan gynnwys cartrefi ar gyfer prynwyr tro cyntaf a phobl ddi-briod; cartrefi fforddiadwy; cartrefi teuluol mewn amrywiaeth o feintiau a mathau gan gynnwys tai unllawr, tai ar led-wahân, tai ar wahân a thai rhes.
- Bydd mentrau i gyflenwi tai rhad yn cael eu cefnogi. Gall hyn fod drwy law datblygwyr prif ffrwd neu drwy beirianwaith arall fel hunanadeiladu neu brosiectau cymunedol.










Fel mewn llawer o drefi, mae gan yr Wyddgrug amrywiaeth sylweddol o fathau o dai yn ei ardal adeiledig. Mae hyrwyddo datblygiad sy'n darparu amrywiaeth o fathau o dai a daliadaethau'n rhan bwysig o Gynllun y Dref

# 3 Yr Amgylchedd, mannau agored a chysylltiadau

## 3.1 Cyflwyniad

Caiff pwysigrwydd tir agored wedi'i ddylunio'n dda yn yr Wyddgrug ei nodi fel un o'r egwyddorion canolog sy'n sail i statws Cittaslow yr Wyddgrug. Bu Cyngor y Dref yn gweithio gyda grwpiau lleol ers llawer blwyddyn i wella ansawdd y mannau agored o fewn y dref. Mae'r berthynas rhwng tref a chefn gwlad a chysylltiadau rhwydd, o safon â mannau agor hefyd yn hollbwysig i ansawdd bywyd y rhai sy'n byw a gweithio yn y dref ac yn ymweld â hi. Mae'r Wyddgrug yn ganolbwynt pwysig cludiant a siopau a gwasanaethau meddygol ac addysgol i bobl yn y pentrefi o amgylch.

### Ffeithiau mannau agored

Mae'r wybodaeth a ffeithiau isod yn rhoi cefnogaeth a chyd-destun i lawer o'r prosiectau allweddol ar y tudalennau canlynol.

### Yr Wyddgrug yng nghyd-destun Sir y Fflint

Ynghyd â nifer o arall nodweddion y dirwedd ac asedau treftadaeth, mae rhan o'r AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Sir y Fflint gyda chydnabyddiaeth genedlaethol o'u rhinweddau arbennig.

Yn 2014, roedd 69% o bobl a holwyd yn Sir y Fflint yn ystyried ei bod yn ddiogel gadael i'w plant chwarae allan, tra nad oedd 21% ac roedd 10% yn ansicr. Mewn cymhariaeth, mae hyn 4% yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol y bobl oedd yn meddwl ei bod yn ddiogel i'w plant chwarae allan a 4% yn is o ran y bobl oedd yn anghytuno â hynny (statswales.cymru.gov.uk).

Mae rhai ardaloedd yn rhannau isaf y dref wedi dioddef llifogydd ysbeidiol drwy'r blynyddoedd. Fodd bynnag, mae cynllun gwaith cyfalaf ar raddfa fawr ar hyd Afon Alun yn 2004/5 gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Sir y Fflint yn amddiffyn y rhai sy'n byw ger yr afon rhag digwyddiadau o'r fath erbyn hyn. Paratowyd cynllun cyfalaf mawr arall hefyd i ddelio â llifogydd achlysurol oherwydd problemau draenio sy'n effeithio ar rannau eraill o'r dref.

Yn Arolwg Marchnad Anifeiliaid yr Wyddgrug roedd 44% o fusnesau, 65% o ymwelwyr a 49% o atebwyr arolwg ar-lein yn ystyried mai golwg y dref oedd un o'i hasedau allweddol. Ystyriai 33% o fusnes, 75% o ymwelwyr a 32% o'r rhai'n cymryd rhan mewn arolwg ar-lein mai cysylltiadau cludiant yr Wyddgrug yw un o asedau allweddol y dref.

Roedd 53% o fusnesau, 70% o ymwelwyr a 53% o'r rhai'n cyfranogi yn yr arolwg ar-lein yn ystyried mai parcio oedd un o asedau allweddol y dref – o'i gymharu â 45% fel cyfartaledd cenedlaethol trefi bach.

(ffynhonnell y tri chanlyniad uchod yw Adroddiad Arolwg y Farchnad Anifeiliaid 2015).

## 3.2 Beth oedd eich sylwadau ar adeg ymgynghori â'r cyhoedd?

Mae gwarchod a gwella mannau agored presennol, yn y canol ac o'i gwmpas, yn flaenoriaeth i bobl sy'n byw yn yr Wyddgrug. Yn arbennig, mae gwarchod bywyd gwyllt a choed sy'n amgylchynu'r ardal ddiwydiannol yn fater sydd angen sylw.

Ymhlith safleoedd allweddol i'w gwella mae Bryn y Beili, ased heb ddigon o ddefnydd arno y byddai modd ei wella a'i hyrwyddo fel safle hanesyddol, a Chae Chwaraeon Maes Bodlonfa, canolbwynt llawer o weithgareddau'r dref. Roedd y cyhoedd yn cefnogi creu mannau agored newydd, fel 'gerddi seibiant' newydd yn y dref, a mannau agored mwy cysylltiedig ar draws yr Wyddgrug.

Yn benodol, mae pobl yn hoffi syniad defnyddio'r hen reilffordd fel llwybr beicio newydd ar draws y dref. Mae angen rhwydwaith beicio sy'n cysylltu â llwybrau presennol fel llwybrau beicio Glannau Dyfrdwy a Sychdyn a'r rhwydwaith beicio cenedlaethol y tu hwnt (Llwybr N5). Mae angen gwneud cyffyrdd allweddol, fel y Groes ar y Stryd Fawr a Wood Green / Ffordd Pentre, yn fwy diogel i gerddwyr er mwyn hybu cerdded o gwmpas y Dref.

Dylid gwella mathau eraill o gludiant cynaliadwy, fel bysiau, hefyd. Roedd awgrymiadau'n cynnwys gwasanaethau bws amlach i Wrecsam, Bwcle a Lerpwl, a bws gwennol am ddim a pharcio a theithio o Neuadd y Sir. Dylid ystyried darpariaeth ar gyfer parcio ceir pobl anabl hefyd.

**"Mae angen gwella llwybrau ger ac ar hyd Afon Alun"**

**"Mae hyn yn hanfodol ar gyfer ansawdd bywyd uchel o fewn unrhyw gymuned"**

**"Mae angen mwy o lonydd beicio unswydd"**

## 3.3 Egwyddorion allweddol

Mae mannau agored presennol yr Wyddgrug a'i lleoliad ar ymyl Bryniau Clwyd yn ased i'r dref. Amcan parhaol yw gwella llwybrau i'r dref a thrwyddi ar gyfer pob dull o deithio. Yr egwyddorion canlynol sy'n siapio sut ddylid gwella mannau agored yr Wyddgrug a chysylltiadau â nhw:

### Mannau agored i bobl a bywyd gwyllt

Gwarchod a datblygu'r tramwyfeydd bywyd gwyllt sy'n ymestyn o gefn gwlad yr Wyddgrug i'r ardal adeiledig bresennol a hyrwyddo plannu ecogyfeillgar ar safleoedd cyhoeddus ac mewn gerddi preifat. Hybu prosiectau fel tyfu a phlannu cymunedol mewn mannau cyhoeddus presennol a newydd a chefnogi prosiectau i wella ansawdd parciau a mannau agored ynghanol y dref. Bydd gerddi cymunedol newydd yn cael eu cynnal i hybu tyfu lleol.

### Ei gwneud yn hawdd i bobl deithio'n gynaliadwy a mwynhau'r awyr agored

Sicrhau bod rhwydwaith o lwybrau diogel ystyriol o gerddwyr a beicwyr yn cysylltu canol y dref gyda chyrchfannau allweddol fel ysgolion, parciau a chaeau chwarae lleol, mannau cyflogaeth allweddol a chefn gwlad y tu hwnt i'r ardal drefol. Bydd gwella cysylltiadau â gorsafoedd trenau gerllaw, gan gynnwys y Fflint, Bwcle, Caer a Wrecsam, yn cynorthwyo pobl wneud dewisiadau cludiant cynaliadwy.

### Gwella ansawdd yr awyr

Bydd hyrwyddo plannu coed a ffurfiau mwy cynaliadwy ar ddatblygiad yn effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd yr awyr.



Bradley Wiggins yn beicio drwy'r Wyddgrug fel rhan o'r Tour of Britain



Achlysur ar Fryn y Beili



Mae'r Wyddgrug ynghanol cefn gwlad a thir agored deniadol

## 3.4 Polisïau ac astudiaethau perthnasol

Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi mwy o fanylion a gwybodaeth gefndir berthnasol i'r egwyddorion a phrosiectau ar gyfer cael gwell mannau agored a chysylltiadau. Mae'r dogfennau'n cynnwys astudiaethau lleol, polisi dosbarth a chanllawiau cenedlaethol:

Uwchgynllun a Datganiad Cadwraeth Amlinellol a Chynllun Rheoli Bryn y Beili (2011/12) Harrison Design Development. Cais CDL dilynol.

Strategaeth Tir Glas Sir y Fflint.

Cynllun Rheoli Cyrchfannau Sir y Fflint 2013.

Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint

Cynllun Datblygu Lleol eginol Sir y Fflint

Cynllun Gweithredu'r Wyddgrug 2011 – 2025

Mynegrif Amlamddifadedd Cymru

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Map Llwybrau Presennol Teithio Llesol Sir y Fflint

## 3.5 Prosiectau allweddol

Mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno rhagor o fanylion am y pum prosiect allweddol a nodwyd i gynorthwyo cael gwell mannau agored a chysylltiadau:

S1 - Gwarchod cymeriad amrywiol y dirwedd ar gyrion yr Wyddgrug

S2 - Cyflawni Cylch Glas yr Wyddgrug

S3 - Hyrwyddo llwybrau beicio hamdden a theithio cynaliadwy

S4 - Cynnal a gwella llecynnau glas presennol a newydd o fewn y dref

S5 - Adolygu'r amddiffynfeydd rhag llifogydd

## S1 Gwarchod lleoliad tirwedd amrywiol a chymeriad yr Wyddgrug

Mae gan ardal ddatblygedig yr Wyddgrug bedwar gwahanol fath o dirwedd sy'n cynorthwyo pennu ymyl y dref. Bydd Cyngor y Dref yn ceisio gwarchod amgylchiadau canlynol y cyrion:

### Dyffryn Alun

Mae'r afon a'i thirwedd a thopograffeg gysylltiedig yn ffurfio ymyl deimladol o dirwedd ar hyd cyrion gogleddol a dwyreiniol y dref gan greu ffin naturiol i ochr hon y dref. Mae tramwyfa Afon Alun yn adnodd ecolegol, adloniadol a thir agored allweddol i'r dref gyfan. Dylid cynllunio datblygiad newydd o fewn neu wrth ymyl y dramwyfa hon yn ofalus er mwyn gwarchod cymeriad ecolegol a natur agored y nodwedd allweddol hon o'r dirwedd. Pan fo hynny'n briodol, dylai datblygiad newydd hefyd gynorthwyo gwella mynediad cyhoeddus ac ansawdd cyfleusterau adloniant ar hyd y dramwyfa hon.

### Clwstwr y gogledd-ddwyrain

Yn hanesyddol, bu rhywfaint o ddatblygu y tu hwnt i dramwyfa Afon Alun, sy'n cael ei ystyried yn rhan o ardal adeiledig yr Wyddgrug ar hyd Bryn Awelon a chyfleusterau dinesig swyddfeydd y Cyngor Sir a Theatr Clwyd. Ni fyddai Cyngor y Dref yn cefnogi datblygiad pellach yn y fan hon i warchod rhag ymdoddi'r Wyddgrug, New Brighton i'r dwyrain a Sychdyn tua'r gogledd. Mae Cyngor y Dref yn cefnogi newid defnydd safle Swyddfeydd y Sir os caiff Neuadd y Sir ei hailddatblygu.

### Ffordd osgoi'r A494

Mae'r ffordd osgoi'n chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cadw traffig trwodd allan o ganol y dref. Mae ei llwybr o gwmpas ochr ddeheuol yr Wyddgrug hefyd yn rhoi mynediad da at fusnesau yn Stad Ddiwydiannol Bromfield a pharciau busnes eraill ar hyd Queen's Lane. Mae'n bwysig cadw gweddill y tir agored rhwng y ffordd osgoi a'r safleoedd diwydiannol.

### Y cyrion gorllewinol

Ffurfiwyd y cyrion hyn gan stadau tai'n ffinio â thir amaeth. Mewn mannau arbennig mae'r ymyl hon i'w gweld o'r wlad oddi amgylch. Cyfyngwyd llai ar yr ymyl hon na chyrion eraill y dref. Mae'n llai sensitif o ran ymdoddi, nid yw'n elwa ar dramwyfa afon ac nid oes ffordd osgoi'n ei chyfyngu.

### Yr ymyl Dwyreiniol

Mae'n bwysig hefyd cadw'r lletem las sy'n weddill rhwng Woodlands Road a Mynydd Isa ar ochr Dwyrain y dref er mwyn diogelu rhag cyfuno'r ddwy gymuned.




## Cymeriad y dirwedd

# S2 Cyflawni Cylch Glas yr Wyddgrug

Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cefnogi cysyniad creu llwybr cerdded 'cylch glas' o amgylch yr Wyddgrug. Mae Cyngor y Dref yn teimlo bod hwn yn arweiniad pwysig fydd yn cynorthwyo gwneud y dref yn fwy pleserus, yn fwy hygyrch ac yn lle iachach i fyw, gweithio ac ymweld. Diben allweddol yr arweiniad hwn yw:

*'Creu 'Cylch Glas' ystyriol o gerddwyr o gwmpas yr Wyddgrug, mor hygyrch ag y bo modd i ymwelwyr a thrigolion, ac yn cael ei gyfoethogi gan flodau gwyllt, gyda'r bwriad o greu cyrchfan ymwelwyr o safon a chynefin ystyriol o beillwyr'*


Caiff y llwybr ei amlygu ar y cynllun ar y dudalen gyferbyn a bydd llecynnau a thir glas newydd a gwell ar hyd y cylch yn cynnwys:

- Wrth galon Cylch Glas yr Wyddgrug mae Afon Alun, gwerddon o dawelwch, llawn bywyd gwyllt, o fewn munudau i'r dref ac eto heb ei gweld gan y rhan fwyaf o drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Ar lannau Afon Alun, mae darnau plannu cyntaf Cylch Glas yr Wyddgrug yn ffurfio
- Ar ochr orllewinol yr Wyddgrug, mae mannau cyhoeddus sydd eisoes ar gael yn cynnig cynefinoedd i fywyd gwyllt ac arddangosfeydd blodau gwyllt
- Mae'r ochr ddwyreiniol, o Ffordd Caer i Ffordd Wrecsam, yn fwy dibynnol ar ymylon bach o blannu a llwybrau ar hyd palmentydd. Mae cyfleoedd yn bodoli i blannu blodau gwyllt trwy ddefnyddio rhai o'r lleiniau glas llydan ar hyd y llwybr
- Gallai'r caeau i'r dwyrain o Woodlands Road gynorthwyo atgyfnerthu rhan ddwyreiniol Cylch Glas yr Wyddgrug trwy ddarparu llwybrau troed a choetir cymunedol yn yr ardal
- Plannu mwy o goed drwy'r dref i gyd yw un mesur y bydd modd ei ddefnyddio i liniaru perygl llifogydd a chynorthwyo amsugno allyriadau traffig niweidiol (gwelwch dudalen 52).

Byddai goleuadau traffig dan reolaeth cerddwyr yn rhoi mynediad mwy diogel mewn nifer o fannau ar Gylch Glas yr Wyddgrug gan gynnwys y canlynol: (a rifwyd ar y map ar y dudalen gyferbyn):

1. Ffordd Dinbych (mynediad at Lwybr y Rheilffordd (Bovril) o faes parcio Love Lane)
2. Heol y Brenin (Pont y Felin Blwm ac Afon Alun)
3. Ffordd Caer
4. Ffordd Wrecsam (Parc Broncoed)

Nodwyd gwelliannau llai i fynedfeydd fel rhai dewisol hefyd ar Ffordd Rhuthun, mynedfa i Bryn y Beili a chyffordd Woodlands Road / Bromfield Lane / Gas Lane. Caiff y rhain eu nodi mewn oren ar y map gyferbyn.




## Cylch Glas Arfaethedig yr Wyddgrug

Llwybr arfaethedig
Mannau chwarae
Meysydd parcio
Cyffyrdd allweddol i'w gwella
Gwelliannau llai i gyffyrdd

## S3 Hyrwyddo cerdded, hamdden a llwybrau beicio teithio cynaliadwy

Mae'r Wyddgrug yn eistedd mewn cefn gwlad hardd, berffaith i'w harchwilio ar ddeudroed neu ar gefn beic. Fe all y dref hefyd wella ei llwybrau beicio a chyfleusterau i annog mwy o bobl i ddewis dulliau teithio cynaliadwy ar gyfer eu teithiau arferol.

Bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint i edrych ar ddarparu rhwydwaith o lwybrau beicio yn yr Wyddgrug. Dylai'r rhain gysylltu'r cyrchfannau canlynol:

- Ysgolion;
- Yr Ysbyty Cymunedol;
- Canol y Dref;
- Neuadd y Sir;
- Llwybr sy'n mynd yn agos at fwyafrif y cylchoedd preswyl;
- Cylchoedd cyflogaeth allweddol gan gynnwys Bromfield, Ffordd Dinbych;
- Canolfan Hamdden yr Wyddgrug; a
- Caeau rygbi a phêl-droed.

Gallai mannau newydd ar gyfer rheseli beiciau ynghanol y dref gynnwys:

- Bryn y Beili, ger y fynedfa o'r Stryd Fawr.

Dylai llwybrau sy'n cysylltu mannau allan o ganol y dref gynnwys:

- Tua'r dwyrain ar hyd yr A549 i gyfeiriad Bwcle a gwasanaethau trên.
- Tua'r gogledd i gyfeiriad Sychdyn ac ymhellach i'r gogledd i gysylltu â NCN 5 fel llwybr hamdden.

Bydd y rhan fwyaf o'r llwybrau beicio hyn yn cael eu darparu ar y stryd, gan ddynodi rhannau ar gyfer beicwyr. Dylid gwella cyffyrdd allweddol, gan gynnwys y cylchfannau ar yr A541, ar gyfer beicwyr.

Byddai Cyngor y Dref hefyd yn cefnogi defnyddio'r rheilffordd segur o fewn yr Wyddgrug i'w gweddnewid yn llwybr cerdded a beicio hamdden. Gallai hyn gysylltu tua'r gogledd-orllewin i Ryd-y-mwyn maes o law.

Bydd Cyngor y Dref, ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint, yn gweithio tuag at gael yr Wyddgrug yn aelod o'r mudiad 'Croeso i Gerddwyr' sy'n blaenoriaethu trefi a phentrefi fel cyrchfannau deniadol gyda gwybodaeth a gwasanaethau o'r safon uchaf i gerddwyr.




## Llwybrau beicio arfaethedig o fewn cylch trefol yr Wyddgrug

- Llwybrau beicio arfaethedig
- Cyrchfannau pwysig
- Llwybrau beicio hamdden arfaethedig
- Llwybrau beicio hamdden tymor hwy

## S4 Cynnal a gwella llecynnau glas presennol a newydd yn y dref

Ynghanol yr Wyddgrug mae cyfres o fannau cyhoeddus glas deniadol, meysydd chwaraeon a chaeau chwarae. Mae'r rhain yn adnodd pwysig i drigolion lleol ac ymwelwyr â'r dref. Bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cefnogi unrhyw fentrau sy'n gwella defnydd ac ansawdd y mannau hyn gan gynnwys cynlluniau plannu, offer newydd a chynnal a chadw.

Mae'r prosiectau canlynol yn flaenoriaethau Cyngor y Dref:

- Cais am Arian Treftadaeth y Loteri (CDL) i gynorthwyo gwelliannau ar Fryn y Beili.
- Y perllannau cymunedol a thir agored arall cysylltiedig â Chylch Glas yr Wyddgrug (gwelwch S2).
- Gwelliannau i ansawdd y cyfleusterau yng nghae chwarae Maes Bodlonfa / Kendrick's Field a mynediad atynt.
- Rhaglenni plannu coed fel y daw cyfleoedd ariannu.

## S5 Adolygu'r amddiffynfeydd rhag llifogydd

Bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint i adolygu'r strategaeth amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer y dref gan gynnwys mesurau lliniaru dŵr ychwanegol yn uwch i fyny'r bryniau i gyfeiriad Gwernymynydd a'r Waun a buddsoddi mewn cynlluniau newydd amddiffyn rhag llifogydd i liniaru effaith unrhyw ddatblygiad newydd.

Mae Cyngor y Dref yn cefnogi defnyddio draenio trefol cynaliadwy (SUD) mewn datblygiadau newydd.

## S6 Cysylltiadau gyda chymunedau gwledig

I gydnabod dalgylch eang yr Wyddgrug sy'n cynnwys llawer o gymunedau gwledig oddi amgylch, byddai Cyngor Tref yr Wyddgrug, ar y cyd â chynghorau cymuned cyfagos, yn cefnogi cysylltiadau cludiant cymunedol cynaliadwy rhwng pentrefi o amgylch a'r Wyddgrug. Goblygiadau cyllidol gwasanaethau o'r fath byddai angen edrych yn ofalus ar a chytunodd a chymeradwyo achos busnes.



# 4 rhoi grym i gymunedau a gwella gwasanaethau

## 4.1 Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio gyda phobl leol i gael atebion lleol i ddarparu gwasanaethau. Mae cryn gyfle i gymunedau lleol chwarae eu rhan ac ysgwyddo cyfrifoldeb am ddarparu rhai gwasanaethau a chyfleusterau lleol y mae'r Cyngor Sir yn rhoi'r gorau iddynt. Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol o ystyried y gostyngiad digynsail yng nghymorth ariannol y llywodraeth. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir yn gobeithio y gall ei bartneriaid cymunedol, fel Cyngor Tref yr Wyddgrug, helpu cadw'r mwyaf pwysig a gwerthfawr o'r gwasanaethau hyn.

Mae angen rhagor o ymgynghori unswydd â'r gymuned er mwyn cytuno ar yr agwedd i'w chymryd at y mater hwn. Fodd bynnag, mae dulliau gwahanol o gynnal y gwasanaethau hyn i bobl leol yn cael eu hystyried. Yn y cyd-destun hwn, mae Cyngor Tref yr Wyddgrug mewn lle arbennig o dda i allu cymryd rhan fwy amlwg a rhagweithiol yng nghyflwyno gwasanaeth o ystyried ei gysylltiadau a phartneriaethau cryf a sefydledig gyda rhwydwaith amrywiol o grwpiau lleol a chymunedol. Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug eisoes yn cyflenwi gwasanaethau i'r dref gan gynnwys glanhau mawr blynyddol o ganol y dref.



Gorsaf Fysiau'r Wyddgrug



Paratoi ar gyfer ras Siôn Corn, Yr Wyddgrug

## 4.2 Beth oedd eich sylwadau ar adeg ymgynghori â'r cyhoedd?

Mae pobl yn awyddus i weld gwella cyfleusterau canol y dref, yn enwedig cyfleusterau cyhoeddus a thoiledau pobl anabl yn yr orsaf fysiau, Maes Parcio Stryd Newydd a Chanolfan Gymunedol Daniel Owen. Hefyd gallai gwell cyfleusterau chwaraeon ac adloniant yn y dref gynorthwyo gwella cynnig y gwasanaethau sydd ar gael i'r rhai hynny sy'n byw ac yn gweithio yma.

Roedd llawer o bobl yn cytuno y dylai cymunedau allu penderfynu ynghylch a dylanwadu ar newidiadau yn eu cymdogaethau. Yn gyffredinol, mae pobl yn frwdfrydig dros ymwneud â'r broses hon, ond yn pryderu nad ydynt yn ddigon gwybodus neu fedrus i allu gwneud gwahaniaeth.

Dywedodd pobl y dylai fod cyfathrebu da rhwng y Cyngor a thrigolion, ac y dylid cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i'r rhai sydd eisiau ymwneud mwy â phrosesau penderfynu.

Dylid cadw delwedd yr Wyddgrug fel tref Gymreig, a rhan o roi grym i gymunedau yw cydnabod cymuned ddwyieithog ac etifeddiaeth ddiwylliannol gyfoethog y Gymraeg. Mae'r nodwedd hon yn rhan o'r hyn sy'n gwneud yr Wyddgrug yn lle arbennig.

**"Mae modd gwella gwasanaethau bob amser a dylid gadael i gymunedau fynegi barn."**

**"Mae angen i'r gymuned leol ymwneud mwy â chadw a gwella gwasanaethau yn yr Wyddgrug"**

**"Cyfathrebu ac annog pobl i gymryd rhan"**

# 4.3 Egwyddorion allweddol

Mae ymdeimlad cryf o ysbryd cymunedol a chydlyniad yn yr Wyddgrug. Mae hyn yn rhannol oherwydd y lliaws cymdeithasau, eglwysi a mudiadau gweithgar ac amrywiaeth yr achlysuron sy'n digwydd yn y dref.

## Lle i bobl ifanc a hen

Dylid datblygu'r dref fel lle ar gyfer pob oed gan gynnwys gwella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc gyda chyfleusterau ystyriol o blant yn ogystal â darparu cyfleusterau pwysig ar gyfer pobl hŷn.

## Lle gyda chymuned fywiog sy'n cael ei chynnal

Dylai'r dref ddal i fod yn lle gydag amrywiaeth eang o grwpiau a mudiadau cymunedol sy'n cynnal achlysuron, gwyliau a chyfarfodydd ac sy'n hybu ymdeimlad o gymuned a rhoi delwedd groesawus i'r Wyddgrug.

## Cyfres o asedau cymunedol gwarchodedig

Oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni nid yw Cyngor Sir y Fflint mwyach yn gallu cefnogi nifer o'i asedau cymunedol yn yr Wyddgrug ac mae wedi'u cynnig fel asedau i'w trosglwyddo. Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug wedi ymgynghori â thrigolion a busnesau'r dref i nodi'r asedau a gwasanaethau y dylid eu gwarchod os oes modd cael hyd i arian.

## Ymrwymiad i gydweithio fel partneriaid

Mae gan Gyngor Tref yr Wyddgrug hanes maith o gydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau, awdurdodau, cymdeithasau a grwpiau lleol allweddol. Mae'r ymroddiad hwn i waith seiliedig ar bartneriaeth, gyda gwerthoedd seiliedig ar bwysigrwydd cymorth cymunedol, yn sylfaenol i waith parhaol Cyngor y Dref.



**Mae Gŵyl Bwyd a Diod yr Wyddgrug yn denu dros 10,000 o ymwelwyr**

## 4.4 Polisïau ac astudiaethau perthnasol

Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi mwy o fanylion a gwybodaeth gefndir berthnasol i'r egwyddorion a phrosiectau ar gyfer cyflawni cymuned rymus a gwell gwasanaethau. Mae'r dogfennau'n cynnwys astudiaethau lleol, polisi dosbarth a chanllawiau cenedlaethol:

Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint

Cynllun Datblygu Lleol eginol Sir y Fflint

Cynllun Gweithredu'r Wyddgrug 2011 - 2025

Polisi a Chanllawiau Trosglwyddo Asedau Cyngor Sir y Fflint

Deddf Llesiant Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014

Nodau Cittaslow



Garddio cymunedol yn Park Avenue

## 4.5 Prosiectau allweddol

Mae'r tudalennau canlynol yn cyflwyno rhagor o fanylion am y tri phrosiect allweddol a nodwyd i gynorthwyo cyflawni cymuned rymus a gwell gwasanaethau.

C1 - Trosglwyddo asedau

C2 - Cymuned Ystyriol o Ddementia

C3 - Cynnal achlysur? Mae Cyngor y Dref yma i helpu

## C1 Trosglwyddo asedau a gwasanaethau

Mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn golygu trosglwyddo perchenogaeth a/neu reolaeth tir neu adeiladau o gorff statudol (fel Cyngor Sir) i fudiad neu grŵp cymunedol (fel elusen neu gwmni budd cymunedol) am lai na gwerth y farchnad er budd cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol lleol.

Mae gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn arbennig awdurdodau lleol, y pŵer i wared tir ac adeiladau am lai na gwerth y farchnad lle gallant ddangos y bydd gwneud hynny'n dod â gwelliannau lleol i ffyniant cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol. Y ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i gymunedau wneud hyn yw Deddf Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi nifer o Asedau Cymunedol i'w trosglwyddo o fewn y dref, sy'n cynnwys y mannau chwarae a chyfleusterau cyhoeddus. Wrth ymgynghori â thrigolion ac ymwelwyr i'r Wyddgrug nodwyd bod y rhain yn bwysig. Bydd Cyngor y Dref yn cynnal ymgynghoriad pellach i nodi gwasanaethau y gallai Cyngor y Dref eu derbyn.

Rhoddodd Cyngor y Dref gyllideb fechan o'r neilltu i ofalu am nifer o asedau cymunedol a nodwyd y mae pobl leol yn teimlo y dylid eu gwarchod.

## C2 Cymuned ystyriol o ddementia

Cymuned ystyriol o Ddementia yw un lle mae grym gan bobl gyda dementia i fod ag uchelgeisiau mawr a theimlo'n hyderus, gan wybod y gallant gyfrannu a chyfranogi mewn gweithgareddau sy'n ystyrlon iddynt.

Ar hyn o bryd mae'r dref yn edrych ar y proses swyddogol gan Gymdeithas Alzheimer er mwyn i'r Wyddgrug gyflawni Statws 'Gweithio i Ddod yn Ystyriol o Ddementia'. Ffurfiwyd grŵp llywio gyda chynrychiolwyr nifer o fudiadau, busnesau a thrigolion yr Wyddgrug, penodwyd swyddogion ac mae nodau ac amcanion yn cael eu pennu ar hyn o bryd i hybu'r fenter hon.

Bydd Ystyriol o Ddementia'n golygu gwahanol bethau i wahanol gymunedau a byddai Cyngor y Dref yn hoffi clywed beth mae'n ei olygu i drigolion a/neu fusnesau'r Wyddgrug.

Mae Polisi C2 yn ymestyn i gynnwys grwpiau eraill gyda gwahanol fathau o anabledd, gan gynnwys pobl ddall neu rannol ddall a'r rhai gyda llai o symudedd, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwynion.

# C3 Cynnal achlysur? Mae Cyngor y Dref yma i helpu

Mae Cyngor y Dref yn cydnabod y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan grwpiau cymunedol lleol yn yr Wyddgrug a byddwn yn dal i roi cefnogaeth i grwpiau lleol gyda chynnal a threfnu achlysuron yn y Dref. Bydd y Cyngor yn cynorthwyo dod o hyd i fannau cyfarfod addas, yn trefnu caniatâd a thrwyddedau pan fo hynny'n briodol ac yn cynnig eu hyrwyddo ar eu gwefan eu hunain.



Carnifal yr Wyddgrug







Achlysuron a gweithgareddau cymunedol gan gynnwys clirio ar Fryn y Beili, y ras grempog flynyddol ynghanol y dref a Staff P&A yn helpu gyda Glanhau Mawr yr Wyddgrug

| Cyf | Prosiect | Cyllido | Amserlenni | Arweinydd cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| **THEMA 1: Tref ddeniadol a ffyniannus** | | | | |
| T1 | Hyrwyddo a rheoli cynnig y farchnad ynghanol y dref | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Cyfredol 0-5 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug |
| T2 | Gwelliannau blaen siopau ar y Stryd Fawr | Arian Treftadaeth y Loteri neu debyg | 0-5 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug a busnesau |
| T3 | Gwella'r parth cyhoeddus ynghanol y dref | Cyngor Sir y Fflint ac Arian Treftadaeth y Loteri neu debyg | 5-10 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| T4 | Cefnogi newidiadau ynghanol y dref | Preifat - tirfeddiannwr | 5-10 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| T5 | Gwarchod y safleoedd diwydiannol / cyflogaeth o'r ansawdd gorau | amherthnasol | Cyfredol | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| T6 | Ymwneud yn rhagweithiol â'r Farchnad Anifeiliaid | Preifat - tirfeddiannwr | Cyfredol 0-5 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug a'r tirfeddiannwr |
| **THEMA 2: Strategaeth ar gyfer twf tai** | | | | |
| H1 | Strategaeth ar gyfer twf tai | amherthnasol | Cyfredol | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| H2 | Atal ymdoddi – safleoedd i'w gwarchod | amherthnasol | Cyfredol | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| H3 | Egwyddorion allweddol ar gyfer datblygiadau tai newydd | Preifat - tirfeddiannwr | Dim ond pan fo modd dangos bod angen safleoedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug, Cyngor Sir y Fflint a'r tirfeddiannwr |
| H4 | Cyflenwi safleoedd mawr gyda llecynnau glas a llwybrau | Preifat - tirfeddiannwr | Dim ond pan fo modd dangos bod angen safleoedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug, Cyngor Sir y Fflint a'r tirfeddiannwr |
| H5 | Amrywiaeth o fathau a daliadaethau | Preifat - tirfeddiannwr | Cyfredol | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| **THEMA 3: Yr Amgylchedd, tir agored a chysylltiadau** | | | | |
| S1 | Gwarchod cymeriad amrywiol y dirwedd ar gyrion yr Wyddgrug | amherthnasol | Cyfredol | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| S2 | Cyflawni Cylch Glas yr Wyddgrug | Cyngor Tref yr Wyddgrug a chyllid y Loteri Fawr neu | 0-5 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug |
| S3 | Hyrwyddo cerdded, hamdden a llwybrau beicio teithio cynaliadwy | Cyngor Sir y Fflint | 0-5 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| S4 | Cynnal a gwella llecynnau glas presennol a newydd o fewn y dref | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint | Cyfredol 0-5 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| S5 | Adolygu'r amddiffynfeydd rhag llifogydd | Cyngor Sir y Fflint | 0-5 mlynedd | Cyngor Sir y Fflint |
| S6 | Cysylltiadau gyda chymunedau gwledig | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Sir y Fflint | 0-5 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Sir y Fflint |
| **THEMA 4: Rhoi grym i gymunedau a gwella gwasanaethau** | | | | |
| C1 | Trosglwyddo asedau | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint | 0-5 mlynedd | Cyngor Tref yr Wyddgrug a Chyngor Sir y Fflint |
| C2 | Cymuned ystyriol o ddementia | amherthnasol | Cyfredol | Fforwm Anabledd Sir y Fflint a Grŵp Llywio'r Wyddgrug |
| C3 | Cynnal achlysur? Mae Cyngor y Dref yma i helpu | Mudiadau cymunedol | Cyfredol | Cyngor Tref yr Wyddgrug |

# Cysylltu

Mae Swyddfa Cyngor Tref yr Wyddgrug ar lawr cyntaf Neuadd y Dref yn Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug ac mae ar agor ar ddyddiau gwaith o 9.00am i 4.30pm.

### Cyfeiriad:

Cyngor Tref yr Wyddgrug
Neuadd y Dref, Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1AB

### Clerc a Swyddog Cyllid:

Samantha Roberts
01352 758532
townclerk@moldtowncouncil.org.uk

### Swyddog Cymorth:

Jane Evans
01352 758532
supportofficer@moldtowncouncil.org.uk

### Rheolwr y Dref:

Dave Hill
01352 751819
tcm@moldtowncouncil.org.uk

### Uwcharolygydd y Fynwent:

Arfon Williams-Cooke
01352 753820

# Anfonwch ymlaen

Derbyniwch her Cynllun Tref yr Wyddgrug a rhoi'r copi hwn i rywun arall ei ddarllen a'i fwynhau.

Gwell fyth fyddai gallu ei adael yn rhywle yn eich cymuned leol lle bydd eraill yn gallu dysgu mwy am gynlluniau a phrosiectau ar gyfer yr Wyddgrug. Diolch yn fawr.